***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 3046

# Gorchymyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) 2011

**Darpariaethau'r Mesur sy'n dod i rym ar 8 Mai 2012**

**4.** Mae darpariaethau canlynol y Mesur yn dod i rym ar 8 Mai 2012—

(a) Adran 1 (ystyr "partneriaid iechyd meddwl lleol");

(b) Adran 2 (cynlluniau ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol);

(c) Adran 4 (methiannau i gytuno ar gynlluniau);

(ch) Adran 5 (ystyr "gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol");

(d) Adran 11 (cynnwys cynlluniau o dan y Rhan hon mewn cynlluniau plant a phobl ifanc);

(dd) Adran 43 (diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adrannau 1, 2, 4, 5 ac 11 o'r Mesur; ac

(e) Adran 45 (Rhan 1: y pŵer i sicrhau darpariaeth ranbarthol).